# BE THE WAVE
# AR FRIG Y DON

# Pysgota Cynaliadwy

## Gwybodaeth Gefndirol



cadwch keep gymru'n wales daclus tidy

MARINE CONSERVATION SOCIETY

UNDEB EWROPEAIDD EUROPEAN UNION
Llywodraeth Cymru Welsh Government
Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd
European Structural and Investment Funds

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

## Pysgota Cynaliadwy

Mae pysgod yn bwysig nid yn unig ar gyfer iechyd cyffredinol ecosystemau morol, ond hefyd maen nhw'n darparu protein a bywoliaeth i filiynau o bobol. Yn fyd-eang, mae pysgodfeydd yn cyflenwi dros 3.3 biliwn o bobl gydag o leiaf 20% o'u cymeriant protein anifeiliaid cyfartalog. (1) Mae'r diwydiant pysgota yn bwysig yn economaidd ac yn ddiwylliannol ar draws y DU hefyd.

**Effeithiau pysgota ar yr ecosystem**

**Gorbysgota-** yn dal pysgod yn gynt nag y gallan nhw atgenhedlu. O ganlyniad i orbysgota, mae llawer o stociau pysgod mewn perygl. Mae gorbysgota yn gwthio pysgod i niferoedd llai a llai, nes bod cyn lleied o bysgod sy'n golygu na allai pysgotwyr wneud bywoliaeth ac mae poblogaethau o bysgod yn ei chael hi'n anoddach tyfu eto. Mae tua 90% o bysgod ysglyfaethus mawr megis tiwna, cleddbysgod (swordfish) a morgwn wedi'u colli. (2)

**Dinistrio cynefinoedd**- Mae amrywiaeth eang o ddulliau pysgota yn cael eu defnyddio ledled y byd, gyda gwahanol dulliau yn cael eu defnyddio i ddal mathau gwahanol o bysgod. Mae rhai o'r dulliau hyn megis treillrwydo môr-waelodol a charthu yn ymwneud â defnyddio mecanwaith trwm ar wely'r môr, sy'n gallu bod yn ddinistriol iawn i cynefinoedd morol. Mae llai na 2.5% o ddyfroedd y DU wedi'u cau i dreillwydo môr-waelodol. (3)

**Sgil ddalfa (Bycatch)** – Mae anifeiliaid sy'n cael eu dal yn ddamweiniol yn ystod gweithgareddau pysgota yn cael eu henwi'n sgil ddalfa. Gall yr anifeiliaid hyn gynnwys dolffiniaid, crwbanod, morlewod a morfilod, yn ogystal â physgod ifanc sy'n cael eu hystyried yn rhy fach i fod o ddefnydd. Mewn sawl rhan o'r byd, mae sgil-ddalfeydd yn cael eu taflu yn ôl i'r môr, naill ai'n farw neu ar fin marw. Er mwyn lleihau'r nifer o bysgod sy'n cael eu niweidio yn ystod y broses hon, mae'n anghyfreithlon yn y DU i daflu rhai rhywogaethau o bysgod yn ôl i'r môr. Mae tua 10% o bysgod sy'n cael eu dal ar draws y byd yn rhai sgil ddalfa. (4)

**Dynamig gweoedd bwyd** – Gall gorbysgota rhywogaeth newid dynameg gweoedd bwyd. Er enghraifft, os yw poblogaeth penfras yn cael ei gorbysgota, bydd gan eu hysglyfaethwyr fel y morloi lai o fwyd. Yn ogystal â hyn, gall pysgod llai y mae'r penfras fel arfer yn eu bwyta gynyddu o ganlyniad i lai o ysglyfaethwyr.

**Pysgota Cynaliadwy**

Mae angen i ni ddod â gorbysgota i ben er mwyn cynnal ecosystemau morol iach a bywoliaethau a diogelwch bwyd ar gyfer y dyfodol.

Mae sawl ffordd o reoli arferion pysgota:

- Gall cwotâu yn seiliedig ar dystiolaeth wyddonol ar nifer a math y pysgod y gellir eu dal helpu i leihau **gorbysgota**.
- Gall wella offer bysgota **leihau sgil ddalfa** drwy gynyddu detholedd gweithgareddau pysgota.
- Gall lleihau arferion pysgota niweidiol mewn ardaloedd sensitif ac amrywiol helpu i **leihau niwed** i'r amgylchedd yn ei gyfanrwydd.
- Bydd parthau gosodedig neu Ardaloedd Morol Gwarchodedig Arbennig lle ni chaniateir unrhyw bysgota yn caniatáu i boblogaethau pysgod ailsefydlu ac yn helpu i **warchod ac adfer** yr amgylchedd morol.
- Mae rheoli gweithgareddau pysgota er mwyn sicrhau bod pawb yn glynu at y rheolau yn anodd mewn amgylchedd morol mawr sy'n golygu bod technoleg yn chwarae rhan fawr mewn rheoli pysgodfeydd.

- Gall dewis y defnyddiwr ddylanwadu ar **orbysgota**. Rydym yn dueddol o fwyta'r un rhywogaethau allweddol, sy'n rhoi llawer o bwysau ar eu stociau. Nid yw llawer o bobl yn ymwybodol o ble y daw'r pysgod maen nhw'n eu bwyta, neu sut mae'n cael eu dal. Mae ymwybyddiaeth gynyddol ymhlith defnyddwyr yn bwysig wrth gyflawni pysgota cynaliadwy. Gall defnyddwyr ddefnyddio'r *Good Fish Guide* sydd wedi'i lunio gan y Gymdeithas Gadwraeth Forol i'w helpu i ddewis bwyd môr cynaliadwy.

(1. Food and Agriculture Organisation of the UN 2020    2. Myers and Worm 2003    3.MCS 2020    4. Zeller et al 2017)

Dyframaeth Cynliadwy

Yn y bôn, dyframaeth yw amaethyddiaeth y môr sy'n cynnwys pysgod, cregyn bysgod a gwymon. Mae tua hanner y pysgod rydym yn eu bwyta yn cael eu ffermio. Mae pysgod fel arfer yn cael eu magu o wyau mewn deorfeydd ac yn cael eu symud i gorlannau neu danciau mwy nes eu bod yn barod i'w bwyta. Mae pysgod gwahanol yn cael eu trin mewn ffyrdd gwahanol gan ddibynnu ar eu hanghenion a'r wlad lle maen nhw'n cael eu magu.

Pam ydym yn ffermio pysgod?

- Mae dyframaeth byd-eang yn tyfu i ateb galw poblogaeth fyd eang sy'n tyfu a'n galw cynyddol am fwyd môr. Nid yw pysgodfeydd gwyllt yn gallu dal mwy o bysgod nag y maent ar hyn o bryd, felly mae ffermio pysgod yn helpu i lenwi'r bwlch rhwng cyflenwad a galw.
- Mae niferodd pysgod megis eog a oedd yn arfer cael eu dal, mor isel y dyddiau hyn, felly mae bron pob un o'r eog rydym yn ei fwyta yw rhai sydd wedi cael eu ffermio.
- Mae dyframaeth yn helpu i leihau straen ar boblogaethau pysgod gwyllt y cefnfor.
- Mae gan ffermio pysgod y gallu i ddarparu pysgod trwy'r flwyddyn.

Effeithiau amgylcheddol negyddol dyframaeth

Mae angen bwydo pysgod megis eog a gorgimychiaid. Mae'r bwyd maen nhw'n ei fwyta'n cael ei wneud o lawer o gynhwysion gan gynnwys pysgod eraill, ac mae rhai o'r rhain o ffynonellau anghynaladwy. Mae planhigion fel soia yn cael eu cynnwys yn y bwyd. Mae'n hollbwysig bod y soia hwn yn dod o gyflenwad cynaliadwy, ond nid yw hyn yn digwydd bob tro.

- Mae'r corlannau lle mae rhai pysgod fel eog yn cael eu cadw yn agored i'r môr o'u cwmpas. Gall unrhyw fwyd nad yw'n cael ei fwyta, cemegion neu wastraff pysgod suddo i wely'r môr gan gynnwys llygredd.
- Mewn rhai ardaloedd gall afiechydon a pharasitiaid fod yn broblem fawr, yn enwedig os ydyn nhw'n lledaenu y tu allan i'r ardal ffermio a heintio pysgod gwyllt.
- Weithiau mae pysgod o'r ffermydd yn dianc ar ôl stormydd neu drwy dyllau yn y rhwydi. Mae gan hyn y potensial i gael effeithiau negyddol ar bysgod gwyllt yn yr ardal drwy ledaenu afiechydon neu groesfridio.

Dyframaeth Cynaliadwy

- Mae rheolaeth a rheoliad da yn bwysig i leihau effeithiau amgylcheddol negyddol a gweithio tuag at dyframaeth gynaliadwy.
- Mae'r *Good Fish Guide* sydd wedi'i lunio gan y Gymdeithas Gadwraeth Forol yn rhoi graddau cynaliadwy ar gyfer pysgod gwyllt a physgod sydd wedi'u ffermio, er mwyn i ddefnyddwyr wneud dewisiadau gwybodus am y bwyd maen nhw'n eu bwyta.

cadwch gymru'n daclus

keep wales tidy

33-35 Heol yr Eglwys Gadeiriol, Caerdydd, CF11 9HB | 33-35 Cathedral Rd, Cardiff, CF11 9HB
029 2025 6767 keepwalestidy.cymru info@keepwalestidy.cymru

Cadwch Gymru'n Daclus yn gwmni wedi ei gyfyngu trwy warant. Rhif Cwmni: 4011164 Rhif Elusen: 1082058 Rhif TAW: 850 3958 13
Keep Wales Tidy is a Company Limited by Guarantee. Company Registration Number: 4011164 Charity Registration Number: 1082058 VAT Registration Number: 850 3958 13